



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

## Cod Ymddygiad aelodau Bwrdd

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1091A2019-20

Mabwysiadwyd gan y Bwrdd ar 31 Ionawr 2019



# Cynnwys

<u>Diben</u>	<u>3</u>
<u>Cwmpas a chymhwysiad</u>	<u>3</u>
<u>Egwyddorion</u>	<u>3</u>
<u>Y Safon Foesegol</u>	<u>4</u>
<u>Ymddygiad personol</u>	<u>4</u>
- <u>Cyffredinol</u>	<u>4</u>
- <u>Cydymffurfio â'r codau ymddygiad i gyrff proffesiynol</u>	<u>5</u>
- <u>Cydberthnasau personol a domestig</u>	<u>5</u>
- <u>Datgelu gorchmynion llys, ymholiadau swyddogol, ymchwiliadau, gwrthod trwyddedau ac ati</u>	<u>5</u>
- <u>Methdaliad ac anawsterau ariannol sylweddol</u>	<u>5</u>
- <u>Troseddau a champau gweithredu sifil</u>	<u>6</u>
- <u>Rhoddion, lletygarwch ac adloniant</u>	<u>6</u>
- <u>Cyfathrebiadau allanol</u>	<u>6</u>
- <u>Cyfrinachedd</u>	<u>7</u>
- <u>Gweithgareddau gwleidyddol</u>	<u>7</u>
- <u>Lobïo a mynediad i aelodau cyrff cyhoeddus</u>	<u>8</u>
<u>Cofrestru buddiannau</u>	<u>9</u>
- <u>Taliadau</u>	<u>9</u>
- <u>Ymgymeriadau cysylltiedig</u>	<u>10</u>
- <u>Contractau</u>	<u>10</u>
- <u>Cyfranddaliadau a gwarannau eraill</u>	<u>11</u>
- <u>Buddiannau anariannol</u>	<u>11</u>
- <u>Datgeliadau partiâu cysylltiedig</u>	<u>11</u>
<u>Datgan buddiannau</u>	<u>12</u>
<b>Atodiadau</b>	
<u>Atodiad 1 – Diffiniadau</u>	<u>14</u>
<u>Atodiad 2 – Hysbysiad am gofrestru buddiannau</u>	<u>15</u>
<u>Atodiad 3 – Ffurflen Cod Ymddygiad</u>	<u>17</u>

## Diben

- 1 Mae'r Cod hwn yn gosod safonau ar gyfer ymddygiad aelodau Bwrdd. Mae'n atgyfnerthu'r gwerthoedd a'r safonau craidd sydd wrth wraidd gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n bwynt cyfeirio ar gyfer penderfyniadau a champau gweithredu wrth gyflawni cyfrifoldebau statudol a phroffesiynol y Bwrdd.

## Cwmpas a chymhwysiad

- 2 Mae aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gyfarwydd â darpariaethau'r Cod hwn a'u bod yn cydymffurfio â nhw. Mae angen i aelodau wneud y canlynol:
  - cadarnhau bob blwyddyn eu bod yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cod ac
  - adolygu eu cydymffurfiaeth â'r Cod yn rheolaidd, yn enwedig pan fydd unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau personol, gan adrodd unrhyw newidiadau i Ysgrifennydd y Bwrdd.
- 3 Mae'r Cod hwn yn diffinio cyfrifoldebau, ond ni all ymdrin â'r holl faterion y gallai aelodau eu hwynebu yn ystod cyfnod eu penodiad. Mae angen i aelodau ddefnyddio synnwyr cyffredin a barn ofalus, gan gyfeirio unrhyw geisiadau am arweiniad neu eglurhad pellach at y Cadeirydd yn gyntaf. Gall aelodau ddewis ymgynghori â'u cynghorwyr cyfreithiol eu hunain hefyd ac, o ran materion ariannol neu fasnachol, ofyn am gyngor gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill.
- 4 Gall y Cod gael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau.
- 5 Gall methu â gweithredu o fewn telerau'r Cod arwain at derfynu penodiad ac, yn achos aelodau sy'n gyflogeion, gamau disgyblu.

## Egwyddorion

- 6 Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwneud â phriodoldeb ac atebolrwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan y sefydliad rwymedigaeth benodol felly i gynnal y safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol a phersonol.
- 7 Rhaid i aelodau gadw at y saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus:
  - (a) anhunanoldeb – ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus ond gweithredu er budd y cyhoedd.
  - (b) uniondeb – ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu'n amhriodol arnynt wrth iddynt wneud eu gwaith. Ni ddylent wneud hynny er mwyn cael manteision ariannol neu unrhyw fanteision perthnasol eraill iddynt eu hunain, eu teulu neu eu ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthynas.
  - (c) gwrthrychedd – rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau'n ddiduedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu neu ragfarn.
  - (ch) atebolrwydd – mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau ac am yr hyn y maent yn ei wneud a rhaid iddynt ganiatáu i eraill graffu arnynt yn y modd sydd ei angen er mwyn sicrhau hynny.

- (d) bod yn agored – dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylai gwybodaeth gael ei chadw rhag y cyhoedd oni bai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.
  - (dd) gonestrwydd – dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn eirwir.
  - (e) arweinyddiaeth – dylai deiliaid swyddi cyhoeddus ymddwyn yn unol â'r egwyddorion hyn. Dylent fynd ati i hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn i'r carn a bod yn barod i herio ymddygiad gwael pryd bynnag y'i gwelir.
- 8 Yn ogystal â hyn, rhaid i aelodau ymddwyn yn unol â gwerthoedd ac ymddygiadau Swyddfa Archwilio Cymru.

## Y Safon Foesebol

- 9 Er mwyn i waith yr Archwilydd Cyffredinol fod yn broffesiynol ac yn gredadwy gan y cyhoedd, rhaid iddo gydymffurfio â'r Safon Foesebol a gyhoeddwyd gan Gyngor Adrodd Ariannol y DU. Mae gan aelodau'r Bwrdd reolaeth sylweddol dros yr adnoddau mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu defnyddio i gyflawni gwaith archwilio, ac mae'n hanfodol bod y rhain yn cydymffurfio â'r Safon hefyd.
- 10 Mae'r Safon yn cynnwys dwy egwyddor drosfwaol sy'n trafod uniondeb, gwrthrychedd ac annibyniaeth, gyda darpariaethau moesebol sy'n eu hategu i osod y trefniadau mae angen iddynt fod ar waith at ddibenion cydymffurfio. Mae'r Cod hwn wedi'i lunio i fodloni'r gofynion hynny.
- 11 Wrth ystyried a yw canlyniadau moesebol wedi'u cyflawni, mae'n bwysig bod aelodau'n gwerthuso eu camau gweithredu yn erbyn y prawf trydydd parti, h.y. a yw'n debygol (mwy tebygol na pheidio) y byddai trydydd parti gwrthrychol, rhesymol a gwybodus yn dod i'r casgliad bod uniondeb neu wrthrychedd (ac felly annibyniaeth) wedi'u cyfaddawdu.

## Ymddygiad personol

### Cyffredinol

- 12 Disgwylir i aelodau Bwrdd gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Swyddfa Archwilio Cymru pan fyddant yn berthnasol. Rhaid iddynt wneud y canlynol:
- deall a pharchu cylchoedd gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru
  - cyflawni eu cyfrifoldebau'n rhesymol ac yn unol â'r gyfraith
  - peidio â defnyddio eu safle yn Swyddfa Archwilio Cymru na'i hadnoddau i ymdrin â materion preifat na dilyn diddordebau preifat
  - gwneud penderfyniadau sydd er budd y cyhoedd yn unig, a pheidio â gwneud elw na buddion eraill iddynt eu hunain, eu teulu na'u ffrindiau
  - peidio â rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion na sefydliadau a allai ddylanwadu arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau
  - ymddwyn mewn modd diduedd a gwrthrychol a pheidio â barnu mater ymlaen llaw

- osgoi unrhyw beth a allai gael ei weld yn rhesymol fel neigaredd neu ffafriaeth wrth ymdrin ag aelodau eraill, staff neu gysylltiadau eraill
  - peidio â gwahaniaethu'n annheg ar sail tarddiad ethnig neu hiliol, anabledd, crefydd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, statws rhan-amser / amser llawn, statws priodasol na gweithgareddau undeb llafur
  - dangos gallu ac arbenigedd proffesiynol yn eu gwaith, gan gynnal a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau yn ôl yr angen.
- 13 Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau sy'n ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus yn unol â'r Cod Ymddygiad hwn a chylch gorchwyl y Bwrdd, a rhaid iddynt gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi, mewn modd sy'n amddiffyn buddiannau'r cyhoedd.
- 14 Pan fydd y Cod hwn yn gofyn am ddatgelu gwybodaeth i'r Cadeirydd, yn achos y Cadeirydd, dylai adrodd yr wybodaeth i Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Os na fydd y Cadeirydd yn adrodd mater o'r fath i'r Pwyllgor hwnnw, dylai'r Archwilydd Cyffredinol wneud yr adroddiad fel Swyddog Cyfrifysdu.

## Cydymffurfio â'r codau ymddygiad i gyrff proffesiynol

- 15 Rhaid i aelodau gadw at godau ymddygiad unrhyw gyrff proffesiynol maen nhw'n aelodau ohonynt.
- 16 Rhaid i aelodau adrodd i'r Cadeirydd unrhyw ymchwiliadau i honiadau o gamymddwyn neu gamymddygiad neu ganlyniad unrhyw weithdrefnau neu geryddon a gyflwynir gan gyrff proffesiynol.

## Cydberthnasau personol a domestig

- 17 Gall gwrthrychedd ac annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol gael eu cyfaddawdu, neu gall ymddangos eu bod wedi eu cyfaddawdu, os bydd aelod nesaf neu agosaf o deulu aelod Bwrdd mewn safle i ddylanwadu ar gorff a gaiff ei archwilio. O dan amgylchiadau o'r fath:
- (a) mae'n ofynnol i aelodau nodi unrhyw deulu nesaf, teulu agos a chydberthnasau personol eraill sy'n ymwneud â chorff sy'n cael ei archwilio a allai, yn eu barn nhw, fygwth gwrthrychedd yr archwilydd neu ymddangos fel petai wedi colli annibyniaeth
  - (b) bydd y cyfarwyddwyr ymgysylltu archwiliadau perthnasol yn cael eu hysbysu am berthnasau o'r fath ar unwaith, ac yn asesu'r bygythiad ac yn gosod mesurau diogelu priodol er mwyn dileu'r bygythiad hwnnw neu ei leihau i lefel dderbyniol.
- 18 Ar wahân i nodi manylion bywgraffyddol mewn cyfathrebiadau fel CVs, rhaid i aelodau beidio â defnyddio'u safle swyddogol i ddatblygu eu buddiannau preifat na buddiannau eu teulu, ffrindiau na chymdeithion.

## Datgelu gorchmynion llys, ymholiadau swyddogol, ymchwiliadau, gwrthod trwyddedau ac ati

- 19 Dylai aelodau hysbysu'r Cadeirydd o'r canlynol:
- (a) os ydynt yn destun gorchymyn llys a gychwynwyd gan gorff rheoleiddio

- (b) os ydynt yn destun ymchwiliad swyddogol gan awdurdod busnes ariannol, proffesiynol neu arall neu
- (c) os ydynt wedi eu gwrthod neu eu cyfyngu rhag parhau ag unrhyw fasnach, busnes neu broffesiwn sy'n gofyn am drwydded, cofrestriad neu awdurdod penodol arall

## Methdaliad ac anawsterau ariannol sylweddol

- 20 Rhaid i aelodau beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau a allai niweidio'u sefyllfa ariannol yn ddifrifol. Rhaid i aelodau hysbysu'r Cadeirydd o'r canlynol:
  - (a) os ydynt yn destun dyfarniad gan lys yn y DU ynghylch dyled neu orchymyn atafaelu enillion
  - (b) os ydynt yn cael eu datgan yn fethdalwyr neu os cyflwynir deiseb fethdaliad iddynt (neu gyfwerth yn ôl cyfraith yr Alban)
  - (c) os ydynt yn ymrwymedig i drefniadau cyfaddawdu neu weithrediadau ymddiriedolaeth â chredydwyr
  - (ch) os ydynt yn dioddef anawsterau ariannol sylweddol
- 21 Bydd yn ofynnol i aelodau roi datganiad llawn o'u hachos er mwyn pennu a yw eu sefyllfa yn debygol o niweidio cyflawni eu dyletswyddau'n briodol ac yn effeithiol.
- 22 Gall aelod sy'n dod yn fethdalwr (neu gyfwerth o dan gyfraith yr Alban) neu sydd wedi gwneud trefniadau â chredydwyr gael ei dynnu oddi ar y Bwrdd, yn unol â darpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## Troseddau a chamau gweithredu sifil

- 23 Rhaid i aelodau hysbysu'r Cadeirydd os cânt eu harestio a chael mechnïaeth wedi ei gwrthod, neu os cânt eu heuogfarnu gan lys o unrhyw drosedd (heblaw am drosedd traffig, lle nad yw'r gosb yn cynnwys cael eu carcharu neu eu hanghymwyso rhag gyrru).
- 24 Mae aelodau hefyd dan rwymedigaeth i adrodd unrhyw gamau sifil a gymerir gan lys yn eu herbyn o ganlyniad i weithgareddau proffesiynol neu fusnes. Gallai fod angen cymryd camau gweithredu yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

## Rhoddion, lletygarwch ac adloniant

- 25 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gyflenwyr a chyrrff eraill wrth gyflawni ei busnes, a gall aelodau wynebu adegau pan gaiff anrhegion neu lletygarwch eu cynnig iddynt neu eu darparu ar eu cyfer. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio trafodion amrywiaeth eang o gyrff o'r fath. Mae'r polisi rhoddion a lletygarwch yn gymwys o dan yr amgylchiadau hyn.
- 26 Nid yw darpariaethau'r adran hon yn berthnasol i weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, mae gan bob aelod gyfrifoldeb dros sicrhau nad yw'n derbyn unrhyw anrhegion na lletygarwch a fydd yn arwain at wrthdaro buddiannau gyda swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru.

## Cyfathrebiadau allanol

- 27 Ni ddylai aelodau gyfeirio at unrhyw ran o'u gwaith gyda Swyddfa Archwilio Cymru wrth siarad yn gyhoeddus neu wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel Twitter neu LinkedIn, os oes unrhyw berygl y bydd y cynnwys yn cael ei ystyried yn niweidiol.

- 28 Ni chaiff aelodau wneud unrhyw sylwadau cyhoeddus am Swyddfa Archwilio Cymru na'i gwaith heb gymeradwyaeth gan y Cadeirydd ymlaen llaw (nid yw hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol wrth gyflawni ei swyddogaethau archwilio ac arolygu, lle bydd angen i'r Archwilydd Cyffredinol roi sylwadau cyhoeddus).
- 29 Gall aelodau ysgrifennu neu gyfrannu at lyfrau neu erthyglau nad ydynt yn ymwneud â gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. Rhaid i'w cynnwys beidio â chodi cwestiynau ynghylch uniondeb, gwrthrychedd na didueddrwydd yr Archwilydd Cyffredinol.
- 30 Caniateir i aelodau ysgrifennu neu gyfrannu at lyfrau neu erthyglau sy'n ymwneud â gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, ar yr amod eu bod yn cael eu trafod a'u cytuno gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Cadeirydd. Mae'r aelodau yn gyfrifol am wirio a yw pwnc llyfr neu erthygl yn ymwneud â gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.
- 31 Rhaid i aelodau'r Bwrdd ymgynghori â'r Cadeirydd a/neu'r Archwilydd Cyffredinol os daw'r cyfryngau atynt yn uniongyrchol. Ym mhob achos:
- (a) Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r canolwr terfynol ynghylch yr hyn a fydd yn cael ei ddatgelu o ran materion sy'n ymwneud ag archwiliadau
  - (b) Y Cadeirydd yw'r canolwr terfynol ynghylch yr hyn a fydd yn cael ei ddatgelu o ran swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru.
- 32 Dylid sianelu cysylltiadau â'r cyfryngau drwy'r Tîm Cyfathrebu, ac mae'n hanfodol ymgynghori â nhw cyn cytuno i wneud cyfweiliad. Yn y mwyafrif o achosion, dylai Swyddog Cyfathrebu fod yn bresennol mewn unrhyw gyfweiliad.

## Cyfrinachedd

- 33 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i ddangos didwylledd a thryloywder yn y ffordd y mae'n gweithredu a sut mae'n cyfathrebu â'r cyhoedd. Fodd bynnag, rhaid i aelodau fod yn ofalus wrth ymdrin â gwybodaeth a geir wrth gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid i aelodau beidio â datgan unrhyw wybodaeth am gyrff a archwilir, yr Archwilydd Cyffredinol nac am Swyddfa Archwilio Cymru y ceir gafael arni o ganlyniad i'w gwaith, y tu hwnt i'r sianeli adrodd priodol. Rhaid iddynt basio ceisiadau am wybodaeth i Ysgrifennydd y Bwrdd, a fydd yn cysylltu â'r Swyddog Gwybodaeth fel y bo'n briodol.
- 34 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn trin achosion o dorri cyfrinachedd neu ddiogelwch gwybodaeth yn ddifrifol. Gallai cael mynediad at wybodaeth neu ei chyflenwi i bobl eraill heb awdurdod arwain at derfynu penodiad ac erlyniad troseddol o dan ddeddfwriaeth diogelu data.
- 35 Mae gan aelodau ddyletswydd i amddiffyn diogelwch a chyfrinachedd pob darn o wybodaeth, waeth a yw ar bapur neu'n electronig. Dylent gymryd gofal arbennig wrth drosglwyddo gwybodaeth swyddogol, gan gynnwys wrth ei chario ar gludiant cyhoeddus.
- 36 Mae dogfennau a lunnir gan Swyddfa Archwilio Cymru a'u defnyddio yn ystod gwaith y Bwrdd yn parhau i fod yn eiddo i Swyddfa Archwilio Cymru, a rhaid i aelodau ddychwelyd y rhain, ynghyd ag unrhyw eiddo arall sy'n perthyn i Swyddfa Archwilio Cymru, ar ddiwedd eu penodiad.

## Gweithgareddau gwleidyddol

- 37 O dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae gan aelodau Bwrdd yr hawl i fynegi eu hunain, gan gynnwys mynegi barn wleidyddol. Mae'n hawl gymwys y gellir ei chyfyngu o dan amgylchiadau penodol, gan gynnwys pan fydd angen diogelu enw da neu hawliau eraill neu pan fydd angen atal gwybodaeth a dderbyniwyd yn gyfrinachol rhag cael ei datgelu.
- 38 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol, ac mae'n hanfodol nad yw Swyddfa Archwilio Cymru yn rhagfarnllyd, nac yn cael ei gweld fel corff rhagfarnllyd, gan gynnwys dangos rhagfarn wleidyddol.
- 39 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn anghymhwyso'r deiliaid swydd canlynol rhag hefyd bod yn aelod o Swyddfa Archwilio Cymru:
- aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol
  - unrhyw un a gaiff ei argymhell, ei enwebu neu ei benodi gan y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu gan Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol
  - aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi
  - aelod o Senedd yr Alban
  - aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon
- 40 Yn ogystal, ni all aelodau Bwrdd fod yn un o'r canlynol:
- yn aelod o'r awdurdod lleol neu'n ymgeisydd ar gyfer bod yn aelod ohono
  - yn ymgeisydd ar gyfer bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd y DU neu Senedd Ewrop
- 41 Mae gweithgareddau gwleidyddol eraill a allai gael eu gwahardd gan y Cod hwn yn cynnwys y canlynol:
- (a) bod â swydd mewn mudiad gwleidyddol sy'n ymwneud â phleidiau gwleidyddol mewn llywodraeth leol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd y DU neu Senedd Ewrop
  - (b) siarad yn gyhoeddus ar faterion gwleidyddol dadleuol lleol neu genedlaethol
  - (c) mynegi barn ar faterion o'r fath mewn llythyrau i'r wasg, neu mewn llyfrau, erthyglau neu daflenni, neu ar unrhyw gyfryngau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd
  - (ch) canfasio ar ran ymgeiswyr ar gyfer awdurdodau lleol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Senedd neu Senedd Ewrop neu ar ran plaid wleidyddol
- 42 Dylai aelodau sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol gael cyngor y Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol yn gyntaf, a fydd yn ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun<sup>1</sup>. Os cyfyd unrhyw wrthdaro buddiannau neu niwed posibl y gellir ei ragweld yn rhesymol i fuddiannau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru yn sgil cysylltiad aelod â gweithgareddau gwleidyddol, rhaid i'r aelod dynnu allan o'r gweithgaredd hwnnw.

## Lobïo a mynediad i aelodau cyrff cyhoeddus

- 43 Rhaid sicrhau'r cyhoedd na fydd unrhyw unigolion na sefydliadau'n cael mynediad gwell i aelodau, na thriniaeth well ganddynt o ganlyniad i gyflogi cwmni neu unigolyn i lobïo ar eu rhan am dâl. Rhaid i aelodau, felly, beidio â chynnig na chytuno i roi mynediad na

<sup>1</sup> Pan fydd y Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried cais gan aelod Bwrdd, byddant yn ystyried hawliau dynol ac yn gofyn am gyngor yn ôl yr angen



thriniaeth well i'r rhai hynny sy'n lobbio am dâl ar ran cleientiaid o'u cymharu â'r hyn y bydd aelodau'n ei roi i unrhyw unigolion neu sefydliadau eraill sy'n eu lobbio neu'n cysylltu â nhw. Ac ni ddylai'r rhai hynny sy'n lobbio am dâl ar ran cleientiaid gael ar ddeall y gallent dderbyn triniaeth neu fynediad gwell gan aelod arall o Swyddfa Archwilio Cymru.

- 44 Dylai aelodau fodloni eu hunain ynghylch pwy yw'r unigolyn neu'r sefydliad sy'n lobbio a'i diben dros lobbio cyn cymryd unrhyw gamau o ganlyniad i gael eu lobbio. Gall aelodau ddewis cymryd camau gweithredu, ond mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir yn cydymffurfio â'r safonau a nodir yn y Cod hwn.
- 45 Ni ddylai aelodau dderbyn unrhyw waith am dâl:
- (a) a fyddai'n golygu lobbio'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol neu gorff y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei archwilio;
  - (b) i ddarparu gwasanaethau, er enghraifft, fel strategydd, cynghorydd neu ymgynghorydd, sy'n rhoi cyngor ar sut i ddylanwadu ar Swyddfa Archwilio Cymru a'i haelodau. Nid yw hyn yn gwahardd derbyn taliad am weithgarwch a allai godi yn sgil bod yn aelod o Swyddfa Archwilio Cymru, neu mewn perthynas â'r aelodaeth hon, fel newyddiaduraeth neu ddarlledu neu ymhél â gwaith cynrychiadol neu gyflwyniadol fel cymryd rhan mewn dirprwyaethau, cynadleddau neu ddigwyddiadau eraill.
- 46 Os bydd aelod yn poeni am gais neu'r dulliau a ddefnyddir gan unrhyw unigolyn neu sefydliad, rhaid iddo gael cyngor gan y Cadeirydd.

## Cofrestru buddiannau

- 47 Mae'r adran hon yn nodi'r mathau o fuddiannau y mae'n rhaid i aelodau eu cofrestru pan gânt eu penodi ac y mae'n rhaid iddynt eu diweddarau o leiaf unwaith y flwyddyn neu pan fydd eu hamgylchiadau'n newid. Bydd methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn yn mynd yn groes i'r Cod hwn.

## Taliadau cydnabyddiaeth

- 48 Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar gyflogaeth â thâl nac ar unrhyw weithgareddau economaidd eraill y tu hwnt i'r rhai hynny a nodwyd yn Neddff Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a thelerau penodi'r aelodau, ar yr amod nad yw gweithgareddau o'r fath yn cystadlu â gwaith yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru ac nad oes perygl y bydd yn dwyn anfri ar y sefydliad. Fodd bynnag, rhaid i aelodau sy'n bwriadu ymgymryd â chyflogaeth allanol neu weithgarwch economaidd arall gael caniatâd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Cadeirydd os yw'n un o'r canlynol:
- (a) cyflogaeth neu weithgarwch fel archwilydd, cyfrifydd neu weithiwr sy'n cadw cyfrifon
  - (b) yn ymwneud â defnyddio gwybodaeth swyddogol a gafwyd wrth gyflawni dyletswyddau swyddogol
  - (c) cyflogaeth neu weithgarwch gydag unrhyw gorff y gallai Swyddfa Archwilio Cymru ddyfarnu busnes neu gontractau iddo
  - (ch) yn ymwneud â gweithio i gorff, neu gynghori corff, a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol
- 49 Yn achos aelodau sy'n gyflogeion, rhaid i unrhyw ffi neu daliad am waith preifat gael ei drosglwyddo i Swyddfa Archwilio Cymru os yw'r gwaith yn cael ei baratoi neu ei gyflawni

mewn amser swyddogol, yn yr un modd ag unrhyw ffioedd am areithiau neu ddarlithoedd a gyflwynir yn rhinwedd eu swyddi swyddogol. Rhaid i unrhyw deithiau, llety neu brydau bwyd a ddarperir mewn cysylltiad â digwyddiadau o'r fath fod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

- 50 Mae gan aelodau fuddiant cofrestradwy os ydynt yn derbyn taliad yn rhinwedd y ffaith eu bod yn un o'r canlynol:
- a) cyflogedig
  - b) hunangyflogedig
  - c) deiliad swydd
  - ch) cyfarwyddwr ymgymeriad
  - d) partner mewn cwmni neu'n
  - dd) ymgymryd â masnach, proffesiwn neu alwedigaeth neu unrhyw waith arall
- 51 Nid oes angen i aelodau gofrestru symiau taliadau.
- 52 Rhaid i aelodau gofrestru aelodaeth unrhyw sefydliad y maen nhw'n derbyn lwfans oddi wrtho.
- 53 Pan fydd aelodau'n cofrestru eu buddiannau, rhaid iddynt roi'r wybodaeth ganlynol:
- (a) ar gyfer cyflogaeth – enw'r cyflogwr, natur y busnes a'r swydd o fewn y sefydliad neu'r gwasanaethau y rhoddir y taliad amdanynt
  - (b) ar gyfer bod yn hunangyflogedig neu weithgarwch economaidd arall – enw a manylion natur y busnes, ac enwau'r holl gleientiaid yn sector cyhoeddus Cymru a diwydiant cyfrifyddu'r DU
  - (c) ar gyfer partneriaeth – enw a natur y busnes
  - (ch) ar gyfer swydd cyfarwyddwr – enw cofrestredig yr ymgymeriad y mae'r swydd cyfarwyddwr yn ymwneud ag ef a syniad bras o natur y busnes
- 54 Pan fydd aelodau'n ymgymryd â masnach, proffesiwn, galwedigaeth neu unrhyw waith arall, byddant yn cofrestru natur y gwaith.
- 55 Os na fydd taliad yn gysylltiedig â swydd, nid oes angen ei chofrestru o dan y categori hwn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen cofrestru swyddi cyfarwyddwr heb dâl o dan y categori "ymgymeriadau perthnasol".
- 56 Nid oes angen cofrestru pensiwn oherwydd nid yw'n syrthio o fewn cwmplas y categori hwn.

## Ymgymeriadau perthnasol

- 57 Rhaid i aelodau gofrestru unrhyw swydd cyfarwyddwr lle nad ydyn nhw eu hunain yn derbyn taliad, ond pan fydd y cwmni neu'r ymgymeriad dan sylw yn is-gwmni neu'n rhiant-gwmni neu'n ymgymeriad lle mae gan yr aelod swydd cyfarwyddwr â thâl.
- 58 Rhaid i aelodau gofrestru enw'r is-gwmni neu'r rhiant-gwmni neu'r ymgymeriad, natur y busnes a'i berthynas â'r cwmni neu'r ymgymeriad maen nhw'n gyfarwyddwr o'i fewn.

## Contractau

- 59 Rhaid dyfarnu contractau ar sail teilyngdod mewn cystadleuaeth deg yn erbyn darpar gyflenwyr eraill. Rhaid i aelodau sydd ag unrhyw gydberthynas personol, domestig neu fusnes â darpar gyflenwyr gofrestru hyn, ac ni chânt fod yn rhan o'r gwaith o osod contractau y gallai'r cyfryw gyflenwyr wneud cynnig amdanynt.

- 60 Rhaid i aelodau gofrestru buddiant pan fydd ganddyn nhw, cwmni maen nhw'n bartner ynddo, ymgymeriad maen nhw'n gyfarwyddwr ohono, neu ymgymeriad mae ganddynt gyfranddaliadau neu warannau eraill ynddo, gontract gyda Swyddfa Archwilio Cymru lle i ddarparu nwyddau neu wasanaethau neu i gyflawni gwaith. Rhaid i aelodau gofrestru disgrifiad o'r contract, gan gynnwys ei hyd, ond heb gynnwys y tâl.
- 61 Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau buddsoddi sydd ganddynt gyda chyflenwyr neu ymgynghorwyr. Pan allai gwrthdaro godi, dylai'r aelod gael gwared ar ei fuddsoddiad neu sicrhau nad yw'n chwarae unrhyw ran yn y gwaith o ddyfarnu'r contract na dewis ymgynghorwyr.

## Cyfranddaliadau a gwarannau eraill

- 62 Gall aelodau gadw buddsoddiadau preifat. Ni ddylent, fodd bynnag, feddu ar nac ymdrin â chyfranddaliadau na gwarannau eraill pan fydd ganddynt gyfle i gael gwybodaeth drwy eu swydd gyda Swyddfa Archwilio Cymru a allai effeithio ar werth gwarannau o'r fath.
- 63 Os bydd gan aelodau gyfranddaliadau neu warannau a allai achosi gwrthdaro posibl â buddiannau neu annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru, dylent gofrestru'r buddiant hwnnw. Dyma rai enghreifftiau o pan fydd gwrthdaro'n bodoli:
- (a) pan fydd unigolyn yn gwybod am gontract yn y sector cyhoeddus sy'n cael ei osod gyda chwmni cyhoeddus
  - (b) pan fydd unigolyn yn gwybod am gamau gweithredu arfaethedig a allai effeithio ar ragolygon cwmni
- 64 Rhaid i aelodau gofrestru budd mewn cyfranddaliadau neu warannau sy'n cael eu hystyried yn ddaliad mewn cwmni neu sefydliad a allai fod yn arwyddocaol neu'n berthnasol i waith a gweithrediad yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru neu a allai effeithio ar y gwaith hwn. Nid oes angen i aelodau gofrestru gwerth buddiannau o'r fath.
- 65 Wrth ystyried priodoldeb cofrestru, y prawf yw a fyddai aelod o'r cyhoedd sy'n ymddwyn yn rhesymol yn credu y gallai unrhyw fuddiannau mewn cyfranddaliadau a gwarannau effeithio ar gyfrifoldebau aelod tuag at Swyddfa Archwilio Cymru a thuag at y cyhoedd neu ddylanwadu ar gamau gweithredu, areithiau neu benderfyniadau aelod.

## Buddiannau anariannol

- 66 Mae'r un mor bwysig bod aelodau'n cofrestru ac yn disgrifio unrhyw fuddiannau anariannol perthnasol, fel aelodaeth neu swydd mewn clybiau, sefydliadau gwirfoddol a chymdeithasau. Buddiannau o'r fath fyddai'r rhai hynny y gallai aelodau o'r cyhoedd gredu'n rhesymol y gallent ddylanwadu ar gamau gweithredu, areithiau neu bleidleisiau aelod wrth gyflawni busnes Swyddfa Archwilio Cymru.

## Datgeliadau partiâu cysylltiedig

- 67 Mae datgeliadau partiâu cysylltiedig yn ofyniad gan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 24. Trafodiad parti cysylltiedig yw trosglwyddiad adnoddau, gwasanaethau neu rwymedigaethau rhwng partiâu cysylltiedig, waeth a oes tâl yn cael ei godi neu beidio. Mae'n ofynnol o dan y Cod hwn i aelodau'r Bwrdd lofnodi datganiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol sy'n datgelu unrhyw drafodion partiâu cysylltiedig neu sy'n

nodi nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw drafodion partiâu cysylltiedig yn ystod y flwyddyn.

- 68 Mae aelodau Bwrdd ac aelodau agos o'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o bartïau cysylltiedig o ran datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru.
- 69 Daw trafodion partiâu cysylltiedig yn sgil derbyn taliad gan, cael buddiant â rheolaeth dros neu gael dylanwad dros:
- (a) unrhyw sefydliad sydd â contract gyda Swyddfa Archwilio Cymru, neu y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu ei gontractio
  - (b) unrhyw sefydliad a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol (neu archwilydd a benodir ganddo)
  - (c) unrhyw sefydliad y mae'r Archwilydd Cyffredinol dan ddyletswydd statudol i gydweithredu ag ef, fel Gweinidogion Cymru yn rhinwedd eu swyddi gydag Arolygiaeth Iechyd Cymru neu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.
- 70 Daw trafodion partiâu cysylltiedig hefyd yn sgil meddu ar neu fod â buddiant mewn tir neu eiddo y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn berchen arno neu dir neu eiddo sy'n cael ei brydlesu neu ei rentu ganddi.
- 71 Pan fydd gan aelodau Bwrdd, aelodau o'u teulu nesaf neu agos, neu bobl eraill y mae ganddynt berthynas bersonol agos â nhw gysylltiadau busnes â Swyddfa Archwilio Cymru neu gorff a archwilir, rhaid datgan y rhain, heblaw o dan yr amgylchiadau canlynol:
- (a) pan fyddant yn ymwneud â phrynu nwyddau a gwasanaethau gan y corff a archwilir yn ystod eu trafodion busnes arferol ac ar sail hyd braich, a phan nad ydynt yn berthnasol i'r naill barti neu'r llall neu
  - (b) pan fyddant yn amlwg yn amherthnasol i'r naill barti a'r llall

## Datgan buddiannau

- 72 Mae cylch gorchwyl y Bwrdd yn gofyn i aelodau ddatgan eu buddiannau fel y bo'n briodol mewn unrhyw achosion sy'n ymwneud â Swyddfa Archwilio Cymru, waeth a yw'r buddiannau hynny hefyd wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Buddiannau neu beidio. Gwneir datganiadau o'r fath ar ddechrau unrhyw gyfarfod, neu cyn gynted y daw i'r amlwg bod angen gwneud hynny. Os nad fydd aelod yn sicr a oes gwrthdaro buddiannau'n bodoli neu beidio, dylai gael cyngor gan y Cadeirydd cyn neu yn ystod y cyfarfod.
- 73 Wrth ystyried a dylid gwneud datganiad, rhaid i aelodau ystyried a allai'r buddiant ddylanwadu arnynt. Rhaid i aelodau wneud y prawf gwrthrychedd hefyd, h.y. a fyddai aelod o'r cyhoedd, gyda gwybodaeth o'r ffeithiau perthnasol, yn credu'n rhesymol bod y buddiant yn ddigon arwyddocaol i ragfarnu trafodaeth neu benderfyniad aelod yn ôl pob tebyg.
- 74 Os bydd aelod yn credu, yng nghyd-destun y mater sy'n cael ei ystyried, na fyddai modd ystyried ei ymrwymiad fymryn yn fwy arwyddocaol nag ymrwymiad aelod arferol o'r cyhoedd, ac na fyddai'n debygol o gael ei weld yn anghywir gan y cyhoedd, gall barhau i gymryd rhan yn y cyfarfod a phleidleisio. Fodd bynnag, rhaid datgan y buddiant perthnasol. Mae aelodau'n gyfrifol am farnu a yw buddiant yn ddigon perthnasol i'w ddatgan, ond os oes ansicrwydd, dylid ei ddatgan.

- 75 Os yw buddiant yn anfanteisiol, rhaid i'r aelod adael y cyfarfod ar ddechrau'r eitem agenda a allai arwain at wrthdaro neu wrthdaro posibl nes bod yr eitem honno wedi dod i ben.
- 76 Dyma rai enghreifftiau o le allai buddiannau anfanteisiol godi:
- (a) unrhyw sefydliad y mae aelod neu aelod agos o'i deulu neu gydymaith yn aelod, yn ddeiliad swydd neu'n gyflogai ohono, neu mewn swydd lywodraethu neu reoli ynddo
  - (b) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gyflawnir gan aelod neu ei gydymaith
  - (c) unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n cyflogi'r aelod neu ei gydymaith
  - (ch) unrhyw gontract rhwng yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru ac unrhyw endid y mae'r aelod neu ei gydymaith yn bartner neu'n gyfarwyddwr ohono, neu le y mae gan yr aelod neu ei gydymaith fuddsoddiad o fwy na £5,000
  - (d) buddiannau unrhyw unigolyn y mae'r aelod neu ei gydymaith wedi derbyn anrheg neu letygarwch oddi wrtho sy'n werth oddeutu £25 o leiaf
- 77 Buddiant anfanteisiol yw buddiant mewn unrhyw fusnes sydd gan yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru lle byddai aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol yn credu'n rhesymol bod y buddiant yn ddigon arwyddocaol i ragfarnu barn aelod am y buddiant cyhoeddus.
- 78 Ni all aelodau sy'n gyflogeion gymryd rhan mewn trafodion Bwrdd pan fydd ganddynt fuddiant personol ynddynt, heblaw pan fydd buddiant o'r fath yn un pell. Ni all aelodau sy'n gyflogeion gymryd rhan mewn trafodaethau penodol ynghylch ailstrwythuro staff, penodiadau, dileu swyddi, cyflogau ac amodau, na materion disgyblu sy'n ymwneud ag unigolion penodol, os bydd y Cadeirydd yn credu bod ganddynt wrthdrawiad buddiannau. Mewn achosion o'r fath, ni all yr aelodau sy'n gyflogeion weld papurau sy'n ymwneud â materion o'r fath a rhaid iddynt adael y cyfarfod os a phan benderfynir hyn gan y Cadeirydd.
- 79 Pan fydd aelod o'r Bwrdd yn datgan buddiant, rhaid i Ysgrifennydd y Bwrdd ei gofnodi yn y cofnodion. Rhaid i Ysgrifennydd y Bwrdd hefyd gynorthwyo'r aelod i wirio a ddylid cofrestru'r mater yn y Gofrestr Buddiannau, yn unol â pharagraffau 46 i 69 y Cod hwn.
- 80 Os bydd aelodau'n datgan buddiannau'n aml mewn cyfarfodydd, dylent ystyried a allant gyflawni eu rôl yn effeithiol a thrafod hyn gyda'r Cadeirydd. Yn yr un modd, pe bai cael eu penodi neu eu henwebu ar gorff arall yn codi pryderon gwrthrychol ynghylch aelodaeth Swyddfa Archwilio Cymru, dylai aelodau drafod y sefyllfa gyda'r Cadeirydd.

# Atodiad 1

## Diffiniadau

- 1 Mae **taliad** yn cynnwys unrhyw gyflog, tâl, cyfrandaliad o'r elw, ffi, treuliau, buddiant ariannol arall neu fuddiant mewn nwyddau. Byddai hwn, er enghraifft, yn cynnwys car cwmni sy'n cael ei ddarparu gan gyflogwr.
- 2 Mae **ymgymeriad** yn golygu:
  - (a) corff corfforaethol neu bartneriaeth; neu
  - (b) gymdeithas anghorfforedig sy'n cyflawni masnach neu fusnes, gyda neu heb y nod o wneud elw.
- 3 **Ymgymeriad perthnasol** yw rhiant-gwmni neu is-gwmni i brif ymgymeriad y mae aelod hefyd yn gyfarwyddwr ohono.
- 4 Mae **rhiant-gwmni neu ymgymeriad** yn gwmni neu'n ymgymeriad sy'n ymwneud ag ymgymeriad (is-gwmni) arall:
  - (a) os oes ganddo'r mwyafrif o'r hawliau pleidleisio yn yr ymgymeriad; neu
  - (b) os yw'n aelod o'r ymgymeriad a chyda'r hawl i benodi neu gael gwared ar y mwyafrif o'r bwrdd cyfarwyddwyr; neu
  - (c) os oes ganddo'r hawl i arfer y dylanwad pennaf dros yr ymgymeriad –
    - yn rhinwedd darpariaethau sydd wedi'u cynnwys ym memorandum neu erthyglau'r ymgymeriad neu
    - yn rhinwedd contract rheoli; neu
  - (ch) os yw'n gynghorydd o'r ymgymeriad ac yn rheoli'r mwyafrif o'r hawliau pleidleisio yn yr ymgymeriad ar ei ben ei hun, yn unol â chytundeb â rhanddeiliaid neu gynghorwyr eraill.
- 5 **Cydymaith** yw rhywun y mae'r unigolyn mewn cysylltiad ag ef. Mae cymdeithion yn cynnwys unigolion yn yr un sefydliad sy'n cwrdd i drafod neu i ryngweithio'n bersonol â nhw mewn rhyw fodd arall (e.e. aelodau o glwb chwaraeon sy'n cwrdd yn gymdeithasol).
- 6 Mae **teulu** yn cynnwys cymar, partner sifil, rhywun sy'n cyd-fyw â'r aelod, partner mewn perthynas bersonol, rhieni, tad-cu a mam-gu, llys-rieni, brodyr a chwiorydd, llys frodyr a chwiorydd, plant, wyrion ac wyresau, llysblant, ewythrod, modrybedd, nithod a neiod.
- 7 Mae **teulu nesaf** yn golygu cymar (neu gyfwerth) a dibynyddion yr unigolyn.
- 8 Mae **teulu agos** yn golygu "teulu nesaf" ynghyd â rhieni, plant nad ydynt yn ddibynyddion a brodyr a chwiorydd.

# Atodiad 2

## Hysbysiad am gofrestru buddiannau: [enw]

Buddiant cofrestradwy	Disgrifiad o'r buddiant	Cofnod (nodwch DIM lle bo'n briodol)
Taliadau	<p>Disgrifiad o:</p> <p>(a) daliad a dderbyniwyd yn rhinwedd bod yn –</p> <ul style="list-style-type: none"><li>(i) gyflogedig neu'n hunangyflogedig;</li><li>(ii) deiliad swydd;</li><li>(iii) cyfarwyddwr ymgymeriad;</li><li>(iv) partner mewn cwmni;</li><li>(v) aelod o unrhyw sefydliad;</li><li>(vi) cyfranogwr mewn masnach, proffesiwn, galwedigaeth neu unrhyw waith arall;</li></ul> <p>(b) unrhyw lwfans a dderbynnir mewn perthynas â bod yn aelod o unrhyw sefydliad;</p> <p>(c) enw (ac enw cofrestredig os yw'n wahanol) a natur unrhyw gyflogwr, hunangyflogaeth, partneriaeth, busnes, ymgymeriad neu sefydliad perthnasol;</p> <p>(ch) natur a chysondeb gwaith â thâl; ac</p> <p>(d) enw'r swydd cyfarwyddwr a natur y busnes perthnasol.</p>	
Ymgymeriadau cysylltiedig	<p>Enw a disgrifiad unrhyw swydd cyfarwyddwr nad yw â thâl yn ei hunan, ond ei fod yn gwmni neu'n ymgymeriad sy'n rhiant-gwmni neu'n is-gwmni o gwmni neu ymgymeriad sy'n cynnig taliad.</p>	
Contractau	<p>Disgrifiad o natur a hyd (ond nid gwerth) contract nad yw wedi'i roi ar waith yn gyfan gwbl, lle:</p> <p>(a) y bydd nwyddau a gwasanaethau'n cael eu darparu i Swyddfa Archwilio Cymru neu gorff sy'n cael ei archwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol neu lle bydd gwaith yn cael ei wneud ar gyfer y rhain; a</p> <p>(b) lle y bydd gennych fuddiant uniongyrchol neu anuniongyrchol fel partner, perchennog neu gyfranddaliwr, cyfarwyddwr neu swyddog busnes neu ymgymeriad, mewn contract o'r fath.</p>	
Cyfranddaliadau a gwarannau	<p>Disgrifiad (ond nid gwerth) cyfranddaliadau neu warannau mewn cwmni, ymgymeriad neu sefydliad a allai fod yn arwyddocaol i waith yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru neu gorff a gaiff ei archwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol neu a allai effeithio ar y gwaith hwn.</p>	

Buddiant cofrestradwy	Disgrifiad o'r buddiant	Cofnod (nodwch DIM lle bo'n briodol)
Buddiannau anariannol	Disgrifiad o fuddiannau a allai fod yn arwyddocaol neu'n berthnasol i waith yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru neu gorff a gaiff ei archwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys (heb ragfarnu ar gyffredinolrwydd y gwaith hwn) bod yn aelod neu'n ddeiliad swydd mewn: (a) cyrff cyhoeddus eraill (b) clybiau, cymdeithasau a sefydliadau (c) undebau llafur ac (ch) sefydliadau gwirfoddol	
Datgeliadau partiâu cysylltiedig	Disgrifiad o unrhyw drafodion partiâu cysylltiedig yr oeddech yn ymwybodol ohonynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.	

Enw (llythrennau bras):

Llofnod:

Dyddiad:



# Atodiad 3

## Ffurflen Cod Ymddygiad

Rwyf wedi darllen a deall:

- Cod Ymddygiad y Bwrdd
- y polisi diogelu gwybodaeth
- y polisi llywodraethu gwybodaeth
- y polisi cyfryngau cymdeithasol
- y polisi anrhegion a lletygarwch
- y polisi iechyd a diogelwch
- polisi teithio a chynhaliaeth y Bwrdd

Rwyf wedi cydymffurfio'n llwyr â darpariaethau'r Cod a'r polisiau a enwyd uchod.

Deallaf os torrir y Cod a'r polisiau a enwyd uchod, gellir adrodd hyn i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol (pan fo'n briodol) a/neu gallai arwain at derfynu fy mhenodiad.

Enw:

Llofnod:

Dyddiad:

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)